Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**
**Heol Gelli Haf**
**Fleur De Lys**
**Coed Duon**
**NP12 3JQ**

**Dyddiad yr ymweliad: Medi 2021**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o’r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ymysg y disgyblion prydau ysgol am ddim

Ers yr ymweliad diwethaf, ac er heriau’n gysylltiedig â’r pandemig, yn gyffredinol, mae safonau disgyblion wedi gwella. Mae agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at eu gwersi yn nodwedd arbennig. Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac mae llawer yn ymgysylltu’n frwdfrydig â’u dysgu. Maent yn gweithio’n dda fel unigolion ac mewn parau a grwpiau bach, ac yn barchus tuag at eu hathrawon. Mae’r disgyblion hyn yn gwrando’n ofalus ar ei gilydd a’u hathrawon, ac mae llawer yn dilyn cyfarwyddiadau’n brydlon.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas, ac yn y gwersi mwyaf effeithiol, maent yn gwneud cynnydd cryf. Mae llawer o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn effeithiol ac mae’r mwyafrif yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u medrau yn llwyddiannus. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud gwallau o ran eu dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol ac nid yw lleiafrif yn cymhwyso’u medrau’n effeithiol. Yn y lleiafrif o wersi lle nad yw’r addysgu yn ddigon effeithiol, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant.

Mae ymatebion llafar disgyblion yn gryfder. Mae llawer yn awyddus i gyfrannu ar lafar ac, ar y cyfan, mae’r mwyafrif yn mynegi eu hunain yn rhugl ac yn gywir. Maent yn defnyddio termau technegol a geirfa bynciol yn addas. Pan fyddant yn cyflawni tasgau penodol, fel cyflwyniadau llafar yn eu gwersi Saesneg ar ardal Caerffili, mae disgyblion yn arddangos ymwybyddiaeth sensitif o gynulleidfa ac yn amrywio goslef eu llais er mwyn creu effaith. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyfleoedd ar draws y cwricwlwm, mae lleiafrif y disgyblion yn cynnig ymatebion byr ac nid ydynt yn ymhelaethu digon. Mae lleiafrif yn trafod yn Saesneg ymysg ei gilydd mewn gwersi cyfrwng Cymraeg.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn effeithlon ac yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau pynciol yn fuddiol. Pan gânt y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn briodol, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi cartwnau gwleidyddol neu’n casglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau mewn gwersi hanes.

Mae llawer o ddisgyblion yn llunio brawddegau’n bwrpasol ac yn paragraffu’n briodol. Maent yn meddu ar eirfa addas, ar y cyfan, ond mae geirfa lleiafrif y disgyblion yn elfennol. Oherwydd bod yr ymweliad hwn wedi dilyn cyfnodau clo, ac oherwydd

cyfyngiadau ar y gweithgareddau oedd yn bosibl eu cyflawni yn ystod yr ymweliad, nid yw hi wedi bod yn bosibl i ni arfarnu medrau ysgrifennu na darllen disgyblion yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth yn effeithiol am fathau gwahanol o rifau ac mae llawer yn meddu ar fedrau rhif priodol. Mae llawer yn dangos dealltwriaeth gadarn o siâp a mesur, er enghraifft wrth gyfrifo ochrau ac onglau coll gan ddefnyddio trigonometreg, ac yn gallu cymhwyso eu dealltwriaeth i ddatrys problemau.

Oherwydd eu bod wedi bod yn dysgu ar-lein yn ystod y cyfnodau clo, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio dyfeisiau ac apiau er mwyn dysgu. Maent hefyd yn gymwys wrth ddefnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol, er enghraifft er mwyn cyflwyno gwybodaeth a chyflawni gwaith ymchwil ar gyfer y Tystysgrif Her Sgiliau. Mewn gwersi TGCh ac mewn ychydig o bynciau eraill, mae disgyblion yn datblygu uwch fedrau TGCh yn dda, er enghraifft wrth greu a defnyddio cronfeydd data a dyfeisio a defnyddio fformwlâu ar gyfer creu cwis aml-ddewis.

Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a'u creadigrwydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio bocsys golau i arbrofi'n greadigol gyda thechnegau lluniadu yn eu gwersi celf. Gallant resymegu'n ddeallus, gan egluro eu safbwyntiau'n glir, er enghraifft wrth ddatblygu eu technegau amcangyfrif yn eu gwersi mathemateg. Gallant hefyd wneud cysylltiadau rhwng pynciau, er enghraifft rhwng ieithoedd gwahanol yn eu gwersi Ffrangeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw disgyblion yn datblygu'r medrau meddwl a chreadigol hyn yn ddigonol oherwydd diffyg cyfleoedd.

Pan fyddant yn ymarfer medrau corfforol, mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos lefelau uchel o ffitrwydd. Meddant ar ddealltwriaeth gadarn o dechnegau a gallant eu cymhwyso'n effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn dysgu technegau rhyng-gipio wrth chwarae pêl rwyd. Mae lleiafrif â medrau corfforol o safon uchel.

Canlyniadau 2019 yw'r canlyniadau cyfnod allweddol 4 sydd wedi eu casglu'n genedlaethol a'u dilysu'n allanol yn fwyaf diweddar. Ar y cyfan, roedd perfformiad yr ysgol yn 2019 yn well nag yn y blynyddoedd blaenorol ac yn debyg i berfformiad ysgolion tebyg. Yn 2019, roedd perfformiad disgyblion oedd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn well ar y cyfan nag yn 2018 ond ychydig yn is na pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi ffocysu ar fireinio a datblygu strwythurau a phrosesau'r ysgol i sicrhau gwell cyfathrebu a chysondeb ar draws y ddau safle. Mae'r uwch dîm arwain wedi ei ailstrwythuro a'i ehangu i roi sylw i flaenoriaethau'r ysgol ac mae'r ysgol wedi datblygu system rheolaeth llinell briodol. Mae hyn yn galluogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i weithredu'n fwy strategol, gan gynnal a herio staff. Fodd bynnag, nid yw strwythur yr arweinyddiaeth ganol yn cyd-fynd yn llawn â chyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o weithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr, gan gynnwys sut i ddefnyddio data olrhain cynnydd. Ar sail hyn, mae gan lawer o arweinwyr well adnabyddiaeth o berfformiad disgyblion o fewn eu meysydd.

Ar y cyfan, mae gan yr ysgol brosesau a chalendr o weithgareddau hunanwerthuso priodol, ond oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, nid ydynt wedi gallu eu gweithredu'n llawn. Fodd bynnag, nid yw ychydig o arweinwyr canol yn adnabod meysydd penodol i'w datblygu o ran addysgu yn eu hadrannau. O ganlyniad, nid yw pob cynllun gwella yn ddigon strategol nac yn rhoi digon o sylw i addysgeg yr ystafell ddosbarth.

**A2. Gwella lefelau presenoldeb**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi datblygu strategaeth effeithiol sydd wedi arwain at welliant o ran presenoldeb disgyblion. Bellach, mae'r ysgol yn rhoi proffil uchel i bresenoldeb. Mae'r swyddog presenoldeb, tiwtoriaid ac arweinwyr yn dadansoddi data presenoldeb yn fanwl ac yn defnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd â'u hadnabyddiaeth dda o'r disgyblion, i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am bresenoldeb unigolion neu grwpiau o ddysgwyr.

Mae system gadarn a graddedig o ymyraethau amrywiol a defnyddiol er mwyn cefnogi disgyblion i fod yn bresennol yn yr ysgol. Mae staff yn gweithio'n rhagweithiol gyda rhieni a disgyblion i hyrwyddo presenoldeb, ac mae systemau priodol er mwyn gwobrwyo presenoldeb uchel. O ganlyniad, yn 2018 a 2019, roedd cyfraddau presenoldeb, absenoldebau cyson a phresenoldeb disgyblion sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol gyda'r cyfraddau mewn ysgolion tebyg.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi grymuso'i darpariaeth lles yn llwyddiannus ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb. Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'r tîm lles yn bwrpasol ac mae rolau pawb a llinellau atebolrwydd nawr yn glir. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol er mwyn creu cyfeiriad strategol i gefnogi lles disgyblion. Maent yn casglu barn disgyblion ac yn defnyddio data'n llwyddiannus er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a chynllunio gwelliant.

Mae'r ymdeimlad o gymuned glòs a chynhaliol yn nodwedd drawiadol o'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer amrediad o anghenion lles disgyblion, yn cynnwys anghenion dwys a chymhleth. Mae gwasanaeth buddiol er mwyn cefnogi iechyd meddwl disgyblion bregus, a gweithia'r ysgol yn agos gyda rhieni ac amrywiaeth o asiantaethau allanol. Yn ystod y cyfnod clo, roedd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd er mwyn gofalu am les disgyblion a'u cynorthwyo i ddychwelyd wrth i'r ysgol ailagor.

Mae gan yr ysgol ymyraethau pwrpasol i fynd i'r afael â disgyblion sydd yn camymddwyn ac mewn perygl o beidio â mynychu'r ysgol. Mae'r strategaethau wedi eu teilwra i anghenion pob unigolyn, gan gynnwys cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion ymdopi wrth ailintegreiddio i'r prif lif. Cynigia'r ysgol gwricwlwm amgen er mwyn bodloni anghenion disgyblion a'u hysgogi i fynychu'r ysgol. Er enghraifft, ceir cyrsiau yn y coleg a'r cwrs 'Beat' lle mae'r heddlu yn darparu cwrs ar gyfer disgyblion sydd yn dangos ymddygiad gwrth-gymdeithasol. O ganlyniad i'r ddarpariaeth lles gynhwysfawr, mae'r ysgol hefyd wedi llwyddo i leihau nifer y gwaharddiadau heb ostwng eu disgwyliadau o ran safonau ymddygiad yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

## A3. Lleihau'r amrywiad yn yr addysgu drwy barhau i rannu'r arferion gorau sy'n bodoli yn yr ysgol

Ers yr ymweliad diwethaf, mae ansawdd yr addysgu wedi gwella. Er hyn, mae meysydd i'w gwella a adnabuwyd ar yr ymweliad diwethaf yn parhau i raddau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthynas weithio adeiladol â'r disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn egluro cysyniadau pynciol yn glir ac yn cynnig cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion tra'n cylchu'r dosbarth. Mae'r athrawon hyn yn annog y disgyblion yn fuddiol ac yn eu hysgogi i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn cynllunio eu gwersi'n grefftus ac yn cyflwyno testunau ag angerdd a brwdfrydedd. Maent yn cynnig gweithgareddau sy'n dal dychymyg y disgyblion ac yn eu sbarduno i feddwl ymhellach. Maent yn arddangos disgwyliadau uchel ac yn annog y disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn ymateb yn grefftus i anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu ac yn defnyddio adnoddau apelgar i symbylu'r dysgu.

Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn cynllunio gwersi ag iddynt amcanion clir. Maent yn cynnwys cyfres o weithgareddau i sicrhau cynnydd yn nealltwriaeth bynciol a medrau'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynnig modelau iaith buddiol ac yn cywiro gwallau iaith gan y disgyblion yn sensitif. Maent yn cynnal eu gwersi ar gyfradd sionc ac yn arddangos disgwyliadau addas o'r hyn all disgyblion gyflawni.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r athrawon yn cynllunio'u gwersi yn ddigon gofalus i sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni'u potensial. Nid ydynt yn sicrhau bod eu gwersi yn ennyn diddordeb y disgyblion. Yn aml, ceir gweithgareddau undonog â her isel, sy'n cadw'r disgyblion yn brysur ond sydd ddim yn caniatáu iddynt wneud cynnydd. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn cynnig model iaith cywir i'r disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn holi cwestiynau caeedig priodol ac yn cywiro unrhyw gamsyniadau'n addas. Yn y mwyafrif o wersi, maent yn gwirio cynnydd y disgyblion yn gyson ac yn cynnig adborth llafar buddiol iddynt. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn holi'r disgyblion yn grefftus. Maent yn holi amrywiaeth o fathau o gwestiynau ac yn mynd ar drywydd ymatebion y disgyblion er mwyn iddynt ymhelaethu ar eu syniadau a meddwl yn ddyfnach. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw o'u hasesu yn graff er mwyn llywio cyflymder yr addysgu, ac felly'r dysgu.

Yn y mwyafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynu yn ddigonol er mwyn procio dealltwriaeth disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn y gwersi hyn yn dueddol o fod yn dawedog. Nid ydynt yn datblygu eu medrau llafar na'u medrau meddwl yn ddigonol.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**